## Esboniad o'r map

Yn y Cynllun Adnoddau Coedwig hwn, rydym am ddangos i chi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y goedwig a'r math o reolaeth y byddwn yn ei defnyddio i gyflawni'r weledigaeth honno. Oherwydd ein bod yn gweithio gyda natur, weithiau mae'n rhaid i'n cynlluniau newid, er enghraifft pe bai'r coed yn dod yn afiach, efallai y byddai'n rhaid i ni eu torri i lawr yn gynnar. Adolygir y cynllun hwn bob deng mlynedd.

## Map 1 – Gweledigaeth hirdymor (30 mlynedd)

Mae'r map hwn yn dangos sut yr ydym yn bwriadu i'r goedwig edrych ymhen 30 mlynedd.

**Rheoli coetiroedd hynafol** – Mae'r safleoedd hyn wedi bod yn goediog ers 1600 neu fwy, a bydd ein rheolwyr yn anelu at warchod ac adfer y coetiroedd hyn. Os oes conwydd yn bresennol, byddant yn cael eu symud yn raddol a'u disodli gan goed llydanddail. Caiff y fflora brodorol eu hannog.
Rhywogaethau allweddol – pathewod, ystlumod, morgrug y coed, titw y wern / yr helyg, telor y coed

**Rheoli coetiroedd brodorol** – Coetir llydanddail (ond nid hynafol) ac ardaloedd newydd o goed brodorol, i greu coridorau natur sy'n cysylltu â choetiroedd eraill. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys coetir ar hyd nentydd ac afonydd. Bydd unrhyw gonwydd yn cael eu symud yn raddol.
Rhywogaethau allweddol – pathewod, ystlumod, morgrug y coed, titw y wern / yr helyg, telor y coed



Niwbwrch - Yn cynnwys ardaloedd o Goetir Twyni Arfordirol Gwlyb a Sych

**Rheoli coedwigoedd safonol** – Conwydd a dail llydan anfrodorol yr ydym yn eu rheoli ar gyfer pren. Ein nod yw cynyddu potensial ecolegol pob coedwig trwy deneuo, gan sicrhau nad yw'r coed i gyd yr un oed, a thrwy blannu mwy nag un math o goeden.
Rhywogaethau allweddol – adar coetiroedd – telor y coed, titw y wern / yr helyg, pathewod, ystlumod, morgrug y coed, gwiwerod coch



Niwbwrch - Mae'n cynnwys ardaloedd o goed pinwydd a ffinydwydd

**Coetir dilyniadol** – Cynefin coetir agored, coed llydanddail neu gonwydd wedi'u cymysgu ag ardaloedd agored / cors er budd amgylcheddol neu i'r dirwedd. Bydd ein rheolaeth yn gyfyngedig iawn, megis tynnu coed conwydd a rhywogaethau goresgynnol eraill o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr ucheldir. Bydd y categori hwn yn cynnwys tir sy'n anodd ei reoli ar gyfer pren, fel ardaloedd yn Ne Cymru sydd wedi llosgi dro ar ôl tro. Ar y safleoedd hyn, bydd natur yn ffynnu ac efallai y bydd coed yn tyfu mewn amser.
Rhywogaethau allweddol – golfanod (corhedyddion y waun, corhedyddion y coed, llinosiaid pengoch), troellwyr mawr, llygod y dŵr, grugieir du



Niwbwrch - Yn cynnwys ardaloedd o fosaig prysgwydd twyni. Bydd gorchudd y coed yn 15-50% yn y rhain, a bydd prysgwydd helaeth ynddynt, a gellir eu rheoli drwy eu pori, yn ogystal â rheoli rhywogaethau goresgynnol.

**Rheoli cynefinoedd agored** – Tir agored presennol neu arfaethedig, er enghraifft cors ucheldirol, mawn dwfn, rhostir, twyni arfordirol, creigiau.
Rhywogaethau allweddol – golfanod (corhedyddion y waun, corhedyddion y coed, llinosiaid pengoch), troellwyr mawr, llygod y dŵr, grugieir du

Niwbwrch - Yn cynnwys cynefinoedd twyni tywod - Twyni symudol a thwyni sefydlog, slaciau twyni ac ardaloedd agored a reolir o amgylch Doc y Glannau.



**Tiroedd eraill** – Yn cynnwys adeiladau, ynni adnewyddadwy bach, gwella'r dirwedd, rheoli ceirw, archaeoleg, chwareli bach a mwyngloddio.

**Safleoedd hamdden** – Hamdden yn y goedwig, gan gynnwys meysydd parcio, safleoedd picnic, canolfannau ymwelwyr, llwybrau a rhaffyrdd yr ydym yn eu rheoli'n weithredol.

**Heb ei ddiffinio** – Ardaloedd sydd o dan goed ar hyn o bryd lle rydyn ni'n bwriadu gwneud rhywbeth gwahanol, ond mae angen cwympo'r coed cyn y gallwn ni benderfynu ar y manylion. Er enghraifft, ardal o fawn dwfn coedwigog yr ydym yn bwriadu ei hadfer i fawn.

**Defnydd arall o diroedd** – Tir nad yw bellach wedi'i ardystio fel un sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddiben arall yn hytrach na choedwigaeth.

Niwbwrch - Yn cynnwys y traeth, morfa heli a heol y cyngor.



## Map 2 – Strategaeth rheoli coedwigoedd a chwympo

Mae'r map hwn yn dangos sut a phryd y bydd ardaloedd yn y goedwig yn cael eu cynaeafu.

Ein nod yw cynaeafu coed mewn ffyrdd sy'n lleihau'r effaith ar y goedwig a bywyd gwyllt. Gelwir y dulliau hyn yn ‘systemau coedamaeth bach eu heffaith’: mae coed mawr yn cael eu tynnu allan yn araf, ac mae coed ifanc yn tyfu i lenwi’r bylchau. Nid yw bob amser yn bosibl defnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith, yn aml oherwydd bod y cnydau'n ansefydlog (mae'r safle'n rhy wyntog ac mae risg y bydd coed yn chwythu drosodd). Yn yr achosion hyn, rydym yn llwyrdorri'r coed pan fyddant yn cyrraedd maint addas ar gyfer y farchnad. Er mwyn osgoi llwyrdorri llawer o ardaloedd ar yr un pryd ac i gynllunio ein busnes, rydym yn trefnu'r cynaeafu o fewn cyfnodau o bum mlynedd.

**Systemau coedamaeth bach eu heffaith** – Mae'r coed wedi teneuo o leiaf unwaith ac mae'r amodau tyfu yn dda (priddoedd da, llai o wynt). Mae llawer o ffyrdd effaith isel o reoli’r goedwig, gan gynnwys ‘cwympo llennyrch bach’, ‘dewis coeden sengl’ a phrysgoedio.

**Ymyriadau prin** – Coed llydanddail brodorol, yn aml yn ifanc, nad oes angen llawer o reolaeth arnynt.

**Gwarchodfa naturiol** – Ardaloedd a adawyd heb eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth yn bennaf.

**Cadw'n hirdymor** – Coed a gedwir er budd amgylcheddol yn sylweddol y tu hwnt i'r oedran neu'r maint arferol. Gallant gael eu cwympo yn y dyfodol neu ddod yn warchodfeydd naturiol.

**Llwyrdorri 2022-26**

**Llwyrdorri 2027-31**

**Llwyrdorri 2032-36**

**Llwyrdorri 2037-41**

**Llwyrdorri 2042-46**

**Llwyrdorri 2047-51**

**Llwyrdorri 2052-56**

**Rheolaeth heb ei neilltuo – cnydau ifanc neu goed wedi'u cwympo'n ddiweddar** – Nid yw'r coed wedi'u plannu eto nac yn rhy ifanc inni benderfynu ar y ffordd orau i'w cynaeafu. Gwneir penderfyniad mewn Cynlluniau Adnoddau Coedwig yn y dyfodol.

**Tir agored** – Tir heb goed.

**Defnydd arall o diroedd** - Niwbwrch - Yn cynnwys y traeth, morfa heli a heol y cyngor.

## Map 3 – Mathau o goedwigoedd ac ailstocio

Mae'r map hwn yn dangos y math o goedwig a fydd yn cael ei hailblannu neu a fydd yn cael adfywio'n naturiol, unwaith y bydd y coed yn wedi eu cynaeafu. Mae'n seiliedig ar ein gwybodaeth am y safle fel ansawdd y pridd, gwyntogrwydd, uchder, llethr, ac ati. Pan ddaw'r amser, bydd y coedwigwyr yn y tîm lleol yn penderfynu ar y rhywogaethau gorau o goed i'w plannu.

**Coetir glan yr afon** – Ar hyd afonydd a nentydd, byddwn yn plannu dail llydanddail neu'n annog coed i ddatblygu'n naturiol i greu coridorau bywyd gwyllt a gwarchod ansawdd y dŵr. Efallai y bydd rhai nentydd yn rhy fach i ymddangos ar y map.

**Coetir cymysg, llydanddail yn bennaf** – Coed llydanddail brodorol (brodorol yn lleol yn ddelfrydol) gyda rhai conwydd (er enghraifft cochwydd). Mae safleoedd coetir hynafol a choetiroedd brodorol newydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn.
> 50% o goed llydanddail

Niwbwrch - Yn cynnwys ardaloedd o Goetir Twyni Arfordirol Gwlyb a Sych

**Coetir cymysg, conwydd yn bennaf**– Coed anfrodorol, conwydd yn bennaf ar gyfer cynhyrchu pren**.** Gallai coed gynnwys ffynidwydd Douglas, sbriws Norwy, cochwydd gyda derw a chastanwydd pêr.
> 50% conwydd

Niwbwrch - Mae'n cynnwys ardaloedd o goed pinwydd a ffinydwydd

**Ucheldir Cymru – llai o amlygiad** – Conwydd ar gyfer cynhyrchu pren. Mae llai o amlygiad yn golygu y bydd mwy o rywogaethau coed yn tyfu. Ar briddoedd gwell, gallem ddewis ffynidwydd Douglas, cedrwydd coch, cochwydd Japan a chochwydd. Mae ffynidwydd mawr a ffynidwydd urddasol yn ddewisiadau amgen da i sbriws Sitca.
> 50% conwydd

**Ucheldir Cymru – mwy o amlygiad** – Conwydd ar gyfer cynhyrchu pren. Sbriws Sitca fydd y goeden fwyaf cynhyrchiol, ond byddwn yn cynnwys rhywogaethau eraill mewn ardaloedd mwy cysgodol neu ardaloedd sydd â phriddoedd gwell. Bydd bedw a chriafol yn tyfu.
> 50% conwydd

**Coetir dilyniadol** – Cynefin coetir agored, coed llydanddail neu gonwydd wedi'u cymysgu ag ardaloedd agored / cors er budd amgylcheddol neu i'r dirwedd. Bydd y categori hwn yn cynnwys tir sy'n anodd ei reoli ar gyfer pren, fel ardaloedd yn Ne Cymru sydd wedi llosgi dro ar ôl tro. Ar y safleoedd hyn, bydd natur yn dilyn ei chwrs a gall coed dyfu mewn amser.

Niwbwrch - Yn cynnwys ardaloedd o fosaig prysgwydd twyni. Bydd gorchudd y coed yn 15-50% yn y rhain, a bydd prysgwydd helaeth ynddynt, a gellir eu rheoli drwy eu pori, yn ogystal â rheoli rhywogaethau goresgynnol.

**Tir agored** – Tir sy'n fwy addas ar gyfer rheoli tir agored, er enghraifft cors ucheldirol, mawn dwfn, rhostir, twyni arfordirol, creigiau.

Niwbwrch - Yn cynnwys cynefinoedd twyni tywod - Twyni symudol a thwyni sefydlog, slaciau twyni ac ardaloedd agored a reolir o amgylch Doc y Glannau.

**Tiroedd eraill** – Yn cynnwys adeiladau, ynni adnewyddadwy bach, gwella'r dirwedd, rheoli ceirw, archaeoleg, chwareli bach a mwyngloddio.

**Heb ei ddiffinio** – Ardaloedd sydd o dan goed ar hyn o bryd lle rydyn ni'n bwriadu gwneud rhywbeth gwahanol, ond mae angen cwympo'r coed cyn y gallwn ni lunio'r manylion. Er enghraifft, ardal o fawn dwfn coedwigog yr ydym yn bwriadu ei hadfer i fawn.

**Defnydd arall o diroedd** - Niwbwrch - Yn cynnwys y traeth, morfa heli a heol y cyngor.